# PWNC Lefel A Dylunio Cynnyrch: Blwyddyn 13 RhDd 3

Ysgol Brynhyfryd

Ysgol Brynhyfryd

| **Yr hanner tymor hwn: Sgiliau, Gwybodaeth a Dealltwriaeth i'w datblygu:**<br><br>• SGILIAU: Bydd pob unigolyn yn gallu dylunio, datblygu a modelu ystod o syniadau ar gyfer eu dewis o Friff Dylunio.<br>• GWYBODAETH: Bydd myfyrwyr yn deall ac yn gwybod am bwysigrwydd cyflwyno da a datblygu eu syniad i wneud y cynnyrch yn eitem o ansawdd uchel.<br>• DEALLTWRIAETH: Bydd myfyrwyr yn dangos eu dealltwriaeth trwy ddylunio a datblygu eu syniad cyn gweithgynhyrchu. Byddant hefyd yn dysgu am dermau a phrosesau technegol. Byddant yn deall pwysigrwydd dylunio ailadroddol (iterative) lle byddant yn cael barn pobl eraill a'u hunain wrth fireinio eu cynnyrch. | | | **Geiriau / Termau Allweddol:**<br><br>**Briff, Dadansoddi, Data, Syniadau, Dylunio, Paratoi, Diagramau, Adnoddau, Cynnyrch, Ymchwil, Ystyriaeth, Samplau, Lluniadu, Cywrain, Peiriant, Cydrannau, Offer, Anthropometreg, CAD, Modelu, Perfformiad, Addurno, Prototeip, Llwyddiant, Tuedd, Arddulliau, Uniadau.** |
|---|---|---|---|
| **Wythnos 1 - Deilliannau Dysgu:**<br><br>**1 - 4 Bydd myfyrwyr yn gallu**...dangos eu sgilau creadigol trwy ddylunio syniad arall i'w cynnyrch. Byddant yn ei ddatblygu trwy ddangos pob rhan, cydrannau, golygfeydd mewnol a mesuriadau i'w dyluniad arall. Byddant yn ymchwilio i ddeunyddiau perthnasol a gorffeniadau ac yn eu cofnodi yn eu llyfryn braslunio. Mae angen iddynt ddeall sut y bydd eu cynnyrch yn cael ei greu trwy fodelu i raddfa ar gyfer y dyluniad. Byddant yn defnyddio ystod o ddeunyddiau, offer a chydrannau i fodelu'r dyluniad a chofnodi'r camau a gymerwyd yn eu llyfryn braslunio. Yna byddant yn gofyn am gyngor cymheiriaid ac adborth wrth wella ar eu dyluniad - gellir gwneud hyn drwy arbrofi a holi barn eraill. | | **Meini Prawf Llwyddiant:**<br><br>1. Bydd myfyrwyr yn esbonio eu bwriadau / syniadau yn glir.<br>2. Bydd myfyrwyr yn trafod ac yn ystyried posibiliadau eraill trwy ddatblygu'r dyluniad ymhellach | **Gwaith Cartref W1**<br><br>Gwaith Cartref Parhaus: Datblygu syniadau |
| **Wythnos 2 - Deilliannau Dysgu:**<br><br>**5 - 9 Bydd myfyrwyr yn gallu**...deall yr angen i ail-ddylunio eu gwaith yn eu llyfrau braslunio i'w ddatblygu ymhellach. Bydd myfyrwyr yn gwybod sut i gynhyrchu eu dyluniad trwy ymarfer uniadau gwahanol, gwaith CAD / CAM a phrofi deunyddiau a gorffeniadau. Mae angen ystyried a chofnodi unrhyw ymchwil berthnasol arall yn seiliedig ar eu cynnyrch e.e. ergonomeg / materion anthropometrig a chynaliadwy. Bydd angen gwerthuso'r holl waith modelu ac asesu cymheiriaid. | | **Meini Prawf Llwyddiant:**<br><br>1. Bydd myfyrwyr yn esbonio eu bwriadau / syniadau yn glir.<br>2. Bydd myfyrwyr yn trafod ac yn ystyried posibiliadau eraill trwy ddatblygu'r dyluniad ymhellach. | **Gwaith Cartref W2**<br><br>Gwaith Cartref Parhaus: Ymchwilio i ddeunyddiau / gorffeniadau / Tynnu llun CAD. |
| **Wythnos 3 - Deilliannau Dysgu:**<br><br>**10 - 14 Bydd myfyrwyr yn gallu.....**gwybod sut i ddewis ystod o ddeunyddiau a chymhwyso gorffeniadau gwahanol iddynt fel samplau ar gyfer eu dewis o orffeniad terfynol. Byddant yn cynhyrchu siart sy'n dangos canlyniadau gwahanol orffeniadau ac yn samplu prawf diogelwch gyda thystiolaeth o grafu, pantio a fflamadwyedd ar wahanol fathau o ddeunyddiau.Gan y bydd pob myfyriwr yn dilyn eu briff unigol ei hun, bydd angen iddynt gostio deunyddiau. Bydd angen iddynt hefyd fesur eu model graddfa i weithio allan y meintiau terfynol cyn prynu'r holl ddeunydd angenrheidiol i ddechrau marcio / adeiladu eu cynnyrch. | | **Meini Prawf Llwyddiant:**<br><br>1. Bydd myfyrwyr yn esbonio eu bwriadau / syniadau yn glir.<br>2. Bydd myfyrwyr yn trafod ac yn ystyried posibiliadau eraill trwy ddatblygu'r dyluniad ymhellach. Bydd myfyrwyr yn dylunio eu prosiect gan ddefnyddio CAD<br>3. Bydd myfyrwyr yn dylunio eu prosiect gan ddefnyddio CAD | **Gwaith Cartref W3**<br><br>Gwaith Cartref Parhaus: Cynllunio ar gyfer cynhyrchu a chyrchu deunyddiau / gofynion. |
| **Wythnos 4 - Deilliannau Dysgu:**<br><br>**15 - 19 Bydd myfyrwyr yn gallu...**dangos eu medrau ymarferol trwy farcio / torri / cydosod ac adeiladu eu cynnyrch. Bydd myfyrwyr yn gwybod sut i ddefnyddio offer yn ddiogel i fesur a marcio eu rhannau a'u cydrannau i'r maint cywir. Rhaid iddynt reoli ansawdd yr offer a gwirio y gwahanol gamau gweithgynhyrchu (e.e mesuriadau). Bydd myfyrwyr hefyd yn dangos eu sgiliau torri trwy ddefnyddio'r offer priodol i dorri gwahanol rannau. | Asesiad<br><br>Asesiad Cynnodol Cwestiwn Theori Arholiad:<br><br>Asesiad Crynodol: | **Meini Prawf Llwyddiant:**<br><br>1. Bydd myfyrwyr yn gweithio'n annibynnol ac yn cyfleu eu hamcanion gwersi personol yn glir gyda'r athro.<br>2. Bydd myfyrwyr yn trafod posibiliadau o ran dulliau adeiladu yn ogystal â thechnegau creadigol gyda'r athro wrth i'r darn gwaith ddatblygu dros amser. | **Gwaith Cartref W4**<br><br>Gwaith Cartref Parhaus: Cynllunio ar gyfer cynhyrchu a chyrchu deunyddiau / gofynion. Ymchwilio i uniadau / dulliau uno. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| ** Rhaid nodi y bydd gweithgareddau pob myfyriwr yn wahanol i gymhlethdod a'u cyfnodau cynhyrchu unigol.*<br>** Rhoddir gwersi cynhyrchu fel canllaw yn unig.* | **Gradd:** | | |
| **Wythnos 5 - Deilliannau Dysgu:**<br><br>**20 - 23 Bydd myfyrwyr yn gallu**.....dangos eu sgiliau ymarferol trwy dorri / cydosod ac adeiladu eu cynnyrch. Bydd myfyrwyr yn arddangos eu sgiliau torri trwy ddefnyddio'r offer priodol i dorri gwahanol rannau. Bydd myfyrwyr yn gwybod sut i ddefnyddio offer yn ddiogel i fesur a marcio eu rhannau a'u cydrannau i faint. Rhaid iddynt reoli ansawdd yr offer a gwirio y gwahanol gamau gweithgynhyrchu (e.e. mesuriadau / rhannau wedi'w torri). Gan ddefnyddio'r darnau sydd wedi'w torri, bydd myfyrwyr yn deall sut i farcio uniadau gwahanol yn barod i'w torri.<br><br>** Rhaid nodi y bydd gweithgareddau pob myfyriwr yn wahanol i gymhlethdod a'u cyfnodau cynhyrchu unigol.*<br>** Rhoddir gwersi cynhyrchu fel canllaw yn unig.* | | **Meini Prawf Llwyddiant:**<br><br>1. Bydd myfyrwyr yn gweithio'n annibynnol ac yn cyfleu eu hamcanion gwersi personol yn glir gyda'r athro.<br>2. Bydd myfyrwyr yn trafod posibiliadau o ran dulliau adeiladu yn ogystal â thechnegau creadigol gyda'r athro wrth i'r darn gwaith ddatblygu dros amser. | **Gwaith Cartref W5**<br><br>Gwaith Cartref Parhaus: Ymchwilio i uniadau / dulliau uno. |
| **Wythnos 6 - Deilliannau Dysgu:**<br><br>**24 - 27 Bydd myfyrwyr yn gallu**...dangos eu sgiliau ymarferol trwy farcio / torri / cydosod ac adeiladu eu cynnyrch yn gywir. Bydd myfyrwyr yn gwybod sut i ddefnyddio'r offer yn ddiogel i fesur a marcio eu rhannau a'u cydrannau i'r maint cywir. Rhaid iddynt sicrhau ansawdd yr offer a gwirio y gwahanol gamau gweithgynhyrchu (e.e. mesuriadau). Bydd myfyrwyr hefyd yn dangos eu sgiliau torri trwy ddefnyddio'r offer priodol i dorri gwahanol rannau. Rhaid nodi a chyfiawnhau'r holl newidiadau a datblygiadau yn glir yn eu llyfrau braslunio.<br>** Rhaid nodi y bydd gweithgareddau pob myfyriwr yn wahanol i gymhlethdod a'u cyfnodau cynhyrchu unigol.*<br>** Rhoddir gwersi cynhyrchu fel canllaw yn unig.* | Asesiad<br><br>Cynnydd Gwaith Ymarferol<br><br>**Asesiad Crynodol:**<br><br>**Gradd:** | **Meini Prawf Llwyddiant:**<br><br>1. Bydd myfyrwyr yn gweithio'n annibynnol ac yn cyfleu eu hamcanion gwersi personol yn glir gyda'r athro.<br>2. Bydd myfyrwyr yn trafod posibiliadau o ran dulliau adeiladu yn ogystal â thechnegau creadigol gyda'r athro wrth i'r darn gwaith ddatblygu dros amser. | **Gwaith Cartref W6**<br><br>Gwaith Cartref Parhaus: Cynllunio ar gyfer cynhyrchu a chyrchu deunyddiau. Ymchwilio i ddulliau uno / uniadau. |

**Fe all y Rhaglen Ddysgu hon newid.**